

Papur Polisi

Mae Cymru'n well gyda choeds

Ionawr 2016



COED CADW
WOODLAND
TRUST

Papur Polisi

Mae Cymru'n well gyda choed

Ionawr 2016



COED CADW
WOODLAND
TRUST



Credwn ni fod coed a choedlannau'n cyfoethogi bywydau beunyddiol pawb – hyd yn oed os nad ydynt yn llawn ymwybodol o hynny, neu'n methu cydnabod eu harddwch neu eu defnyddioldeb.

Gweledigaeth Coed Cadw o sut y gall coed a choedlannau fod o fudd i Gymru

Mae pawb yn cael budd o goed, coedlannau a choedwigoedd – hyd yn oed os nad ydynt byth yn gweld neu'n cyffwrdd coeden, neu'n cerdded mewn coedlan. Rydym i gyd yn dibynnu ar fyd natur i'n cyflenwi â hanfodion bywyd, fel awyr lân, dŵr, bwyd a thanwydd. Mae coed yn cynnig cyfoeth arall hefyd: byddai'n bywydau'n llawer tlotach heb eu lle yn ein tirweddau, ein llenyddiaeth, ein hiaith a'n bywoliaeth. Mae'n cysylltiadau ysbrydol ac ymarferol â choed a choedlannau'n mynd yn ôl filoedd o flynyddoedd ond i lawer o bobl, maen nhw wedi mynd ar goll bellach.

Mae'n bryd llunio cysylltiad diwylliannol newydd â choed a choedlannau i ddod â nhw'n ôl i'n bywydau ni i gyd.

Edrych tuag at y dyfodol

Ein huchelgais yw gweledigaeth a rannwn o Gymru sy'n gyforiog o goedlannau a choed brodorol, y mae pawb yn eu mwynhau a'u gwerthfawrogi. Mae hyn yn golygu tirweddau coediog, a chyfoeth o amrywiaeth a chymhlethdod natur ynddynt, sy'n fwy abl i wella o'r gwaethaf y gall newid hinsawdd, plâu a chlefydau, a phwysau eraill ei daflu atynt. Yn ogystal mae'n golygu lleoedd sy'n hardd, yn ysbrydoli, yn hygyrch, yn gynhyrchol ac yn berthnasol i bawb; lleoedd iachach i fyw a gweithio ynddynt; sy'n cynnig lle i ymlacio, myfyrio a magu nerth newydd, oddi wrth y bywydau mwyfwy cyflym yr ydym yn ei fyw bellach. Ac mae'n golygu diogelu'r llu o rywogaethau nodweddiadol, arbennig sy'n gysylltiedig â choetir, y gall rhai ohonynt fod â'r allwedd i ddatblygiadau gwyddonol a meddygol pwysig.

Credwn fod hyn yn gyraeddadwy ac yn angenrheidiol i gwrdd â dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol¹ a Bil yr Amgylchedd (Cymru)², ond mae'n gofyn am newid sylweddol wrth reoli ac ymateb i'r pwysau y mae'n coed a'n coedlannau danynt ac sy'n dirywio cynhyrchiant a bioamrywiaeth ein coetiroedd.

Cyflwr coedlannau a choed Cymru

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Coetiroedd i Gymru³ yn gywir wrth amlygu'r amgylcheddau amrywiol y mae coetiroedd yn eu creu a'r cyfleoedd gwych i bobl, busnesau a bioamrywiaeth y maen nhw'n eu cynnig. Mae'r coed a gynhyrchant yn adnodd adnewyddadwy allweddol sy'n helpu i gloi carbon, sydd ag ôl troed carbon isel iawn ac sy'n helpu i gynnal ein datblygu cynaliadwy a'n hagendâu newid hinsawdd. Hyd yn oed yn bwysicach, o

ran eu gwerth i'n cymdeithas a'n heconomi, yw'r gwasanaethau eraill y mae coetiroedd yn eu darparu, yn cynnwys diogelu adnoddau dŵr, a'u gwerth o ran hamdden a bioamrywiaeth. Mae ffactoreiddio'r buddion hyn yn golygu bod coetir trefol nodweddiadol yn werth £130,000 yr hectar, a choetir llydanddail iseldir £150,000 yr hectar⁴.

Mae coedlannau Cymru'n cynnal amrywiaeth trawiadol o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n adlewyrchu daeareg, tirwedd a hinsawdd amrywiol ac yn darparu cadarnleoedd rhyngwladol bwysig i goedydd derw, coedydd clychau'r gog a choed hynafol. Yr un mor nodedig a phwysig yw'r rhwydweithiau o wrychoedd a choed pori traddodiadol coedcae a ffridd sydd mor nodweddiadol o dirwedd ffermio Cymru.

Rhywogaeth coetir eiconig yw bele'r coed, oedd unwaith yn gyffredin trwy Gymru gyfan. Mae Coed Cadw'n helpu ariannu prosiect gan y Vincent Wildlife Trust sydd â'i fryd ar ddod a bele'r coed i lawr o'r Alban i ardal o Ganolbarth Cymru lle mae poblogaeth fach iawn wedi goroesi. Y bwriad yw sefydlu poblogaeth hyfyrw a all ffynnu yng nghoedwigoedd y Canolbarth.



BILL CUTHERY/VINCENT WILDLIFE TRUST

¹ www.assembly.wales/research%20documents/14-043%20wellbeing%20bill%20summary/14-043.pdf

² www.assembly.wales/Research%20Documents/15-030-Environment/15-030.pdf

³ naturalresources.wales/media/2985/woodlands-for-wales-strategy.pdf

⁴ www.woodlandtrust.org.uk/mediafile/100523043/RR-WT-060315-economic-benefits-woodland.pdf

Mae newidiadau amgylcheddol cyflym yn dal i roi pwysau ar ein coed, coedlannau a choedwigoedd. Mae bygythiadau gan niferoedd cynyddol o blâu a chlefydau newydd a rhywogaethau ymledol eraill; llygredd; gorburi; newidiadau yn nefnydd tir a rheoli mwy dwys; a cholledion ffisegol asedau coetir naturiol sy'n cael eu gyrru gan elw economaidd tymor byr yn hytrach na thwf cynaliadwy.

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn arwain at gynydd tymheredd byd-eang, gyda phatrymau tywydd cyfnewidiol, a digwyddiadau mwy eithafol megis cyfnodau o sychder, llifogydd a stormydd. Mae hyn yn effeithio ar yr amrywiaeth naturiol o rywogaethau; fe all rhai ymateb mewn ffyrdd gwahanol a bydd hyn yn effeithio ar y berthynas rhyngddynt hefyd.

Dros y canrifoedd, mae llawer o gynefinoedd naturiol wedi'u clirio i wneud lle ar gyfer coedwigaeth planhigfeydd, ffermio a datblygu. Bellach, mae ardaloedd sy'n gyfoethog mewn bywyd gwyllt, yn cynnwys coedlannau hynafol, yn aml iawn yn fach, yn brin ac wedi'u hynysu oddi wrth ei gilydd gan leoedd gelyniaethus, megis tir sy'n cael ei reoli'n ddwys. Mae'r darnio hwn yn gwneud bywyd gwyllt yn fregus am ei bod hi'n fwy anodd i fywyd gwyllt symud mewn ymateb i newid amgylcheddol; mae ardaloedd llai o gynefin yn cynnal llai o rywogaethau ac mae iddynt lai o amrywiaeth genetig. Dim ond 15 y cant o Gymru sy'n goediog, llawer llai na bron pob gwlad arall yn Ewrop.

Mae defnyddio coed fel tanwydd nid yn unig yn fantais economaidd sy'n deillio o goetir, ond hefyd yn ffordd effeithiol o leihau allyriannau net CO².

RORY FRANCIS/WTML



Gweledigaeth Coed Cadw ar gyfer coed, coedlannau a phobl

Mae bywydau pawb yn cael eu cyffwrdd gan goed, coedlannau a choedwigoedd mewn rhyw fodd neu'i gilydd, gyda'u buddion oesol, helaeth yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r llall. Mae hyn yn rhoi cyfrifoldeb ar ein cenhedlaeth ni i weithredu i'w cynnal a'u diogelu ar gyfer y dyfodol.

Credwn fod coedlannau a choed yn gwella bywydau pob dydd a bywoliaeth pobl – hyd yn oed os nad ydynt yn gwybod am eu buddion neu'u bod yn ddall i'w harddwch a'u defnyddioldeb. Mae gan bawb hawl i'r buddion cyffredinol a phenodol y mae coed yn eu cyflenwi, a bydd llunio cysylltiadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd agosach gyda choedlannau a choed yn gwneud ein bywydau'n gyfoethocach.

Credwn fod sicrhau dyfodol coetir Cymru yn galw am ffordd gyfunol o fynd ati i ddiogelu'r unigryw, adfer yr hyn sydd wedi'i niweidio a'i ddirywio, cynnal cynhyrchu coed gwerth mawr, cynaliadwy, ac ychwanegu coedlannau newydd ac amrywiol at ein tirweddau tenau – coedlannau newydd sy'n gallu clustogi, estyn a chysylltu ein cynefinoedd tameidiog i lunio tirweddau mwy gwydn. Mae'r camau hyn yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd ac yn gefnogol i'w gilydd, ac yn helpu coedlannau i ymgysylltu â darlun mwy natur hefyd.

Yn 2014 codwyd y syniad o Siarter y Deyrnas Unedig ar gyfer coedlannau, coed a phobl gennym, i fynegi'r buddion y mae coedlannau a choed yn dod â nhw i gymdeithas ac i'w diogelu at y dyfodol. Fe wnaeth yr ymateb tra chadarnhaol a gawsom ein harwain i'r casgliad bod yna deimlad cryf bod angen Siarter o'r fath, ac mai 'nawr yw'r amser iawn i'w llunio. Rydym wedi gwahodd llawer o sefydliadau i ymuno â ni, a thrwy gydol 2016 byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddarparu rhaglen o ddigwyddiadau a chyfathrebiadau sy'n anelu at lunio mudiad pobl o blaid coed ledled y DU, a Siarter sy'n adlewyrchu'n go iawn deimladau a gobeithion y DU at y dyfodol ynglŷn â choedlannau a choed.

Mae'r her amgylcheddol yn enfawr ac mae angen inni weithio gyda'n gilydd i addasu ar gyfer newid gan fod yr amgylchedd yn fusnes pawb bellach. Rydym yn cymeradwyo ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy a rheoli adnoddau naturiol yn integredig⁵ ac yn awgrymu mai rhan o'r hyn sydd ei

angen yw gwneud mwy o benderfyniadau'n lleol, yn cynnwys penderfyniadau ar lefel caeau a wneir mewn partneriaeth â thirfeddianwyr. Mae'r egwyddor yma wrth wraidd llawer o'r hyn yr ydym yn ei gynnig.

Creu tirweddau sy'n fwy addas ar gyfer heriau amgylcheddol y dyfodol

Mae angen newid sylweddol i feithrin y rhan bwysig y mae coedlannau a choed yn ei chwarae wrth fynd i'r afael ag effeithiau amgylchedd sy'n newid, o negyddu effaith llifogydd, i wella ansawdd aer a dŵr, a darparu deunyddiau adeiladu carbon isel, cynaliadwy a thanwydd. Yn ogystal â'i fod yn cael ei gydnabod yn llawn a'i fod yn gyfreithiol rwymol mewn polisi newid hinsawdd, dylai'r newid sylweddol hwn fod yn amlwg hefyd yng ngweithrediad grantiau rheoli tir Glastir.

Tirwedd gyforiog o goed

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu'i ymrwymiad pellweledol i reoli tir yn gynaliadwy sydd wedi'i gorffori'n awr yn Neddff yr Amgylchedd (Cymru), yn cydnabod sut y mae angen cynnydd sylweddol yn y gorchudd o goed a choetir newydd i gyflawni amcanion polisi'n ymwneud â chyllidebau carbon, gwytnwch ffermio, cynhyrchu coed yn gynaliadwy, cyflenwi dŵr a bioamrywiaeth hamdden.

Fe all coed fod yn werthfawr yn gysgodi da byw o wres yr haf, ond mae dehongliad Llywodraeth Cymru o reolau Ewropeaidd yn cosbi ffermwyr am fod â chlystyrau o goed ar eu tir.

- Rydym yn galw am fabwysiadu'r opsiwn a argymhellir yn Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd gan y Llywodraeth i gynyddu'r gyfradd blannu gyfartalog o thua 500 hectar i 5,000 hectar y flwyddyn yn cael ei gynnal dros 20 mlynedd⁶. Rydym yn cymeradwyo'r dull gweithredu a argymhellir gan Cyswllt Amgylchedd Cymru yn eu papur cyd-destun ac egwyddorion ar greu coetir yng Nghymru⁷ ac awgrymwn isod amrywiaeth amryfal o beirianweithiau a all gyfrannu at gyflawni'r nod polisi hwn ac eraill.

Gwella'r gwytnwch mewn ffermio.

Mae patrymau tywydd sy'n newid, dirywiad pridd a phlâu a chlefydau newydd i gyd yn bygwth cynhyrchiant ffermydd a choedwigoedd, yn ogystal â bioamrywiaeth. Mae angen cynllun ymaddasu i newid hinsawdd arnom i gynyddu gwytnwch yn wyneb y pwysau hwn, ac yn arbennig i helpu i amsugno CO₂ o'r atmosffer. Mae tri cham hanfodol yr ydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru eu cymryd:-

- Newid ei dehongliad o reoliadau'r Undeb Ewropeaidd ar Gynllun y Taliad Sylfaenol. Ar hyn o bryd mae'r rhain yn cosbi ffermwyr Cymru am fod â chlystyrau o goed ar eu tir, ac yn tanseilio'n uniongyrchol nod Llywodraeth Cymru o annog ffermwyr i blannu mwy o goed ar eu ffermydd.



RORY FRANCIS/WTML

⁶ gov.wales/docs/desh/publications/101006ccstratfinalen.pdf

⁷ www.waleslink.org/sites/default/files/WEL_Woodland_Creation_in_Wales_paper_May14.pdf

- Gofalu bod pob rhan o'r cynllun Glastir yn ystyriol o goed a choetiroedd ac yn deall y cyfraniad y gall coed ei wneud wrth alluogi tirfeddianwyr i gymryd rhan yn effeithlon. Rhaid i Glastir gynnig cymhellion realistig i blannu a rheoli coedlannau a choed, yn cynnwys coedlannau fferm, coed pori, lleiniau cysgodi a gwrychoedd; sy'n gwella cynaliadwydd y fferm trwy ddarparu cysgod, lloches a biomas, yn helpu i reoli'r perygl o lifogydd ac yn lleihau erydiad pridd a llygredd gwasgaredig. Dylai o leiaf fod yn bosibl i ffermwyr Cymru ddilyn esiampl Cynllun Pontbren⁸ yng ngogledd Powys, gan blannu miloedd o goed ar ffurf lleiniau cysgodi a gwrychoedd er mwyn rheoli'u ffermydd yn well, heb gael eu cosbi dan y cynllun cymhorthdal fferm.
- Buddsoddi mewn cymuned newydd o gynghorwyr a hwyluswyr rheoli tir amlsgiliau, sy'n gallu cyfarfod a thrafod mesurau gyda thirfeddianwyr ar eu tir a rhoi anogaeth a chymorth parhaus ar gyfer cynlluniau amlbwrpas hyblyg sy'n cyflenwi canlyniadau polisi ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfraniad coed a choetir.

Gwneud tirweddau'n wydn i blâu a chlefydau coed

Mae'r cynnydd cyflym yn y plâu a'r clefydau coed sy'n effeithio ar goetiroedd a thirweddau ar

draws y DU yn fater sydd ag angen ymateb brys a chyson yng Nghymru, wedi'i gydgysylltu â chamau gweithredu yng ngwledydd eraill y DU.

- Mae angen i beirianweithiau i alluogi hyn, megis y bartneriaeth Observatree⁹, gael eu meithrin gan y Llywodraeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol a'r sector busnes.
- Mae cwmpo llarwydd ar raddfa fawr i gyfyngu lledaeniad *Phytophthora* yn effeithio ar adferiad safleoedd coetir hynafol yn ne Cymru. Byddai adolygiad o'r ymatebion hyd yma yn ddefnyddiol i helpu i osgoi problemau yn y dyfodol.
- Rydym yn galw ar Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac eraill i gyrchu dim ond stoc plannu coed a llwyni a dyfwyd yn y DU ar gyfer pob plannu. Mae Coed Cadw'n gwarantu hyn trwy gomisiynu meithrinfeydd coed i dyfu had o'r DU hyd at dair blynedd ymlaen llaw ac rydym yn galw ar eraill i gefnogi'r diwydiant meithrinfeydd yn yr un ffordd.
- Mae'n hymchwil yn awgrymu y byddai hyd yn oed y colledion coed lleiaf o wrychoedd ac ymylon caeau yn cael effaith enfawr ar gysylltedd ecolegol y dirwedd, ac o bosibl yn dod yn berygl sylweddol i ddiogelwch ar y ffyrdd. Mae angen camau pellach i ddeall yr effeithiau hyn ac i glustnodi camau gweithredu cynnar priodol (ee plannu coed cyfnewid) ar frys.

Ym mis Tachwedd 2015 fe roddodd Coed Cadw dros 26,000 o goed brodorol i ysgolion a grwpiau gwirfoddol yng Nghymru, iddyn nhw wella amgylchedd eu hardal leol. Fe fydd Coed Cadw'n gwneud hyn yn rheolaidd, bob gwanwyn a hydref, ac mae'r holl goed yn cael eu tyfu yng Ngwledydd Prydain, a hynny er mwyn lleihau'r perygl y gellid dod â chlefydau coed i mewn i unrhyw un o Wledydd Prydain.

PHILIP FORMBY/WTML





Mae coetir hynafol Cymru'n cael ei ddiogelu gan Bolisi Cynllunio Cymru, ond mae bygythiadau'n parhau. Yma, ger Dolgellau, fe adeiladodd Llywodraeth Cymru ffordd newydd trwy ardal o goetir hynafol, na ellir ei ailgreu.

Amddiffyniad gwirioneddol i goedlannau a choed hynafol

Coetir hynafol Cymru yw'r cynefin cyfoethocaf, mwyaf gwerthfawr i fywyd gwyllt sydd gennym, yn ymestyn dros lai na phump y cant o'r arwynebedd tir. Er ei fod wedi'i ddiogelu mewn polisi cynllunio, mae bygythiadau gwirioneddol yn parhau, hyd yn oed o ganlyniad i ddatblygiadau a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru ei hun. Ar ben hynny, 'does dim amddiffyniad statudol i goed hynafol a choed treftadaeth Cymru, elfen dyngedfennol a gwerthfawr iawn o'n treftadaeth.

- Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailddatgan ei ymrwymiad i ddiogelu pob coetir hynafol rhag difrod arwyddocaol ac i gymryd camau i gryfhau'r amddiffyniad i goed hynafol a choed treftadaeth go iawn, yn cynnwys sefydlu cofrestr ar gyfer coed pwysig. Dylai hyn gynnwys darparu cymorth cadarnhaol i'w rheoli'n sensitif ble mae angen hynny.

Adfer bioamrywiaeth coetir

Rydym yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn gwneud egwyddorion dull ecosystem y Cenhedloedd Unedig yn rhan annatod o reoli adnoddau naturiol ac rydym yn cytuno â'r angen i gadwraeth bioamrywiaeth fynd "y tu hwnt i amddiffyniad". I

goetir, y flaenoriaeth bioamrywiaeth yw gwrthdroi'r colledion bioamrywiaeth yn yr holl goedlannau hynafol hynny sydd wedi'u trawsnewid yn blanhigfeydd isel eu hamrywiaeth. Gall goedlannau o'r fath ddal i gyfrannu hefyd at gynhyrchu coed yn gynaliadwy yn y tymor hir o fewn gofynion Safon Coedwigaeth y DU¹⁰. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i:-

- Barhau i sicrhau y diogelir cynefinoedd unigryw a rhywogaethau nodweddiadol fel rhan hanfodol o strategaeth cadwraeth bioamrywiaeth ehangach sy'n sicrhau gwytnwch ac ymaddasiad.
- Darparu peirianweithiau adeiladol ac atyniadol sydd i bob pwrpas yn cymell cyfranogiad gwirfoddol tirfeddianwyr preifat mewn gwarchodaeth ac adferiad rhagweithiol, yn cynnwys darparu cymorth effeithiol trwy Glastir i adfer coetiroedd mewn perchenogaeth breifat.
- Mynnu bod CNC yn dangos adferiad mesuradwy ym mioamrywiaeth coetiroedd hynafol a chynefinoedd blaenoriaethol eraill trwy'r holl ystâd goed gyhoeddus.
- Mynnu bod CNC, fel y rheoleiddiwr, yn sicrhau ei fod â phroses gadarn i ddangos bod gwaith sy'n dod o fewn grantiau a chaniatâd a gymeradwyir yn cael ei gyflenwi'n unol â Safon Coedwigaeth y DU.

¹⁰ www.forestry.gov.uk/ukfs/biodiversity

Dal y Dyfroedd yn ôl

Mae'n cyhoeddiad "Dal y Dyfroedd yn Ôl"¹¹ yn disgrifio sut y gall coed ddarparu ateb cynaliadwy ac isel ei gynhaliaeth i leihau'r perygl o lifogydd. Mae coed yn helpu hefyd i gynnal ansawdd dŵr a lleihau llygredd gan ronnau a gwrteithiau. I wireddu'r potensial hwn rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i:-

- Gynllunio ar gyfer plannu o leiaf 10 miliwn o goed dros y pum mlynedd nesaf i leihau'r perygl o lifogydd i filoedd o gartrefi ar draws y wlad, trwy greu gwrychoedd, lleiniau coed a mannau coediog wedi'u targedu ble byddant yn helpu orau i amsugno glawiad ac arafu dŵr ffo.
- Roi hwyluswyr arweiniol yn eu lle i yrru creu cynlluniau rheoli tir ar gyfer dalgylchoedd afonydd a dargedir, trwy arwain defnydd grantiau Glastir mewn ffordd flaenoriaethol ac integredig.

Mwy o goedlannau a choed ble mae pobl yn byw

Mae adroddiad sy'n torri tir newydd a gyhoeddwyd gan CNC yn dangos bod rhai o'n trefi'n llawn coed ond eu bod yn brin mewn eraill¹² Mae tystiolaeth ryngwladol rymus yn dangos y buddion iechyd a llesiant enfawr a roddir gan leoedd glas llawn coed¹³, ac yng Nghymru mae prosiectau sy'n torri tir newydd megis Coedlleol Actif Woods Wales a'r rhaglen Dewch Allan! yn dangos manteision iechyd gweladwy. Mae goedlannau a choed yn perthyn wrth galon adferiad i bawb, yn arbennig o ystyried bod amddifadedd cymdeithasol yn cael ei gysylltu'n aml ag ansawdd amgylcheddol gwael a gorchudd isel o goed. Dylai datblygiadau newydd gynnwys lle llawn coed¹⁴, gan ei ddefnyddio i godi'r disgwyliadau ar gyfer amgylcheddau byw atyniadol ac iach, i adfywio'n hetifeddiaeth Fictoriaidd o barciau trefol a darparu buddion ymarferol megis helpu i reoli dŵr ffo stormydd.

Mae Coed Cadw'n galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi plannu o leiaf 10 miliwn o goed dros y pum mlynedd nesaf i leihau'r perygl o lifogydd i filoedd o gartrefi ar draws y wlad. Yma, plannwyd llain o goed ar hyd nant ar fferm ym Mhowys, a ddylai atal dwr ffo rhag llifo i'r nant yn ystod glaw trwm, a hefyd lleihau llygredd wasgaredig.

MIKE RICHARDS




¹¹www.woodlandtrust.org.uk/mediafile/100263595/pp-wt-2014-holding-back-the-waters.pdf?cb=da2f6c8c51244ec487204cf9449ac0bd

¹²www.naturalresourceswales.gov.uk/media/4123/tree-cover-in-wales-towns-and-cities-2014-study.pdf

¹³nhsforest.org/evidence

¹⁴www.woodlandtrust.org.uk/mediafile/100631140/pg-wt-300615-residential-developments.pdf?cb=093f261286fd4fdc8befda998e4b7c11



Pa mor wyrdd yw'ch strydoedd chi?

Gorchudd coed yn ninasoedd, trefi a phentrefi Cymru yn 2009, yn ôl "Gorchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru" a gyhoeddiwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru 2014.



Mae Coed Cadw'n galw ar Lywodraeth Cymru i weithio i gefnogi'r dyhead y dylai pob dinas, tref a phentref elwa o orchudd coetir o 20 y cant, o leiaf.

- Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu cronfa her ar gyfer plannu coed i wella'r amgylchedd ble mae pobl yn byw a gweithio i gefnogi'r dyhead y dylai pob dinas, tref a phentref yng Nghymru gael budd o leiaf 20 y cant o orchudd coed, i gyd-fynd â'r maestrefi deiliog sy'n cael eu gweld fel y lleoedd gorau i fyw. Yn anad dim dylai hyn gefnogi plannu coed brodorol.

Sy'n gallu darparu cynefin a ffynhonnell neithdar i beillwyr, a choed ffrwythau hefyd, a fydd yn darparu ffynhonnell fwyd gynaliadwy.

- Ni ddylai'r un maes parcio newydd mawr gael ei ganiatáu oni bai ei fod yn cynnwys atebion draenio gwyrdd i helpu trylfiad dŵr a lleihau'r effaith 'ynys wres'.

Mae Coed Cadw'n credu na ddylid caniatáu'r un faes parcio mawr newydd onid yw'n cynnwys datrysiadau draenio 'gwyrdd' i helpu dwr i gael ei amsugno'n naturiol, ac i leihau effaith yr 'ynys gwres'.



Gwerthfawrogi hamdden mewn coetiroedd

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi amcangyfrif yn ddiweddar bod gwerth mynediad adloniadol i goetir i'n heconomi bron 10 gwaith gwerth cynhyrchion coed¹⁵. Dim ond un esiampl yw hyn o'r buddion lluosog y mae coetiroedd yn eu darparu nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu mewn incwm a dderbynnir gan berchnogion coetir. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

- Gynabod gwerth hyn a gwasanaethau coetir eraill nad ydynt ar gyfer y farchnad yng nghyfrifon yr ystâd goedwig gyhoeddus a'r ffordd y mae'i hystâd goedwig yn cael ei phrisio.
- Darparu mwy o gymorth ar gyfer mynediad adloniadol a reolir gan dirfeddianwyr preifat, a darparu cymorth ariannol ar gyfer cytundebau gwirfoddol i sicrhau mynediad i bob ardal fawr o goedwigaeth breifat.

Cenedlaethau'r dyfodol: Coeden ar gyfer pob plentyn

Mae Llywodraeth Cymru, trwy'i menter PLANT!¹⁶ eisoes yn ariannu coeden ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei eni neu'i fabwysiadu yng Nghymru. Credwn y gallai llawer mwy gael ei wneud i feithrin y cysylltiad rhwng plant a choedlannau a choed. Rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i:

- Ailymrwymo i a gweithio gyda CNC a ninnau i ailfywiogi'r Prosiect PLANT!, a.
- Defnyddio cyfnod sylfaen y cwricwlwm cenedlaethol i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i blannu coeden eu hunain a chefnogi Ysgolion Coedwig.
- Parhau i weithio gyda ni i gynnwys ysgolion mewn plannu coed i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ac i ddatblygu cydran Plant! ein coetir canmlwyddiant Rhyfel Byd Cyntaf yn llawn yn Ffos Las yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Coed Cadw'n credu y dylid gwneud mwy o lawer i fagu perthynas rhwng plant a choed a choedlannau. Yma, mae plant yn plannu coed yng Nghoed Ysgubor Wen yng Ngwynedd fel rhan o brosiect Plant! Llywodraeth Cymru.



ROBY FRANCIS/MTML

¹⁵www.ons.gov.uk/ons/rel/environmental/uk-environmental-accounts/2015/stb-environmental-accounts-2015.html#tab=Woodland-ecosystem-asset-and-services-accounts

¹⁶gov.wales/topics/environmentcountryside/forestry/plantatree/?lang=en

Ystâd goedwig gyhoeddus sy'n enghraifft batrymol sy'n arwain y byd o ran datblygu cynaliadwy

Yn ymestyn dros bron chwech y cant o arwynebedd tir Cymru, mae ystâd goedwig Llywodraeth Cymru'n ased hanfodol bwysig sy'n cynnig buddion enfawr i bobl Cymru. Rydym yn cymeradwyo ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'w chadw fel ased cyhoeddus ond yn awgrymu y gallai wneud hyd yn oed yn fwy i'w defnyddio fel enghraifft batrymol o reoli tir amlwyrpas cynaliadwy, sy'n cyflenwi buddion gwasanaeth ecosystem mwy amrywiol, cyfleoedd adloniadol ac yn cefnogi diwydiant coedwigaeth a choed bywiog a llwyddiannus. Rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i:-

- Fod yn dryloyw wrth farnu ble gorwedd budd y cyhoedd ac yn y dewisiadau a wneir i gydbwyso amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Amrywio'r coedwigoedd i gynyddu gwytnwch a chwrdd ag amcanion lluosog, gan gymryd y cyfle a grëwyd gan y dinistr sydd wedi'i achosi gan *Phytophthora ramorum* i wneud hyn.
- Sicrhau bod cydran gwerth bioamrywiaeth uchaf yr ystâd, yr 20 y cant ohoni sy'n cynnwys coetir hynafol neu blanhigfeydd ar safleoedd coetir hynafol, mewn proses adfer a fydd yn diogelu ac yn gwella'r holl nodweddion unigryw sy'n nodweddu coetir hynafol.
- Defnyddio'r ystâd i gefnogi mentrau cymunedol a mentrau nid-er-mwyn-elw.

Mae gorchudd coetir ym Mhorthmadog yn 20 y cant, sy'n ychwanegu'n fawr am ansawdd bywyd y trigolion lleol ac ymwelwyr fel ei gilydd.

ROSS D EVANS



Coed Cadw

3 Iard y Cowper
Caerdydd
CF10 5NB



0292 002 7732



wales@woodlandtrust.org.uk



coedcadw.org.uk/cymru



**COED CADW
WOODLAND
TRUST**

Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr yw Coed Cadw (the Woodland Trust), Rhif 294344. Mae e'n gofrestredig yn yr Alban hefyd, Rhif SC038885. Swyddfa gofrestredig: Kempton Way, Grantham, Lincolnshire, NG31 6LL. Llun y clawr: Peter Wheeler 7298 12/15